Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 260

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

RHAN 5

Yr hawl i gael amser i ffwrdd

Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a gyflogir am ran o'r flwyddyn gwyliau

34.—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol a gyflogir gan yr un cyflogwr am ran o'r flwyddyn gwyliau blynyddol hawl i gronni gwyliau blynyddol yn ôl cyfradd o 1/52 o'r hawl i gael gwyliau blynyddol a bennir yn y Tabl yn Atodlen 2 am bob wythnos orffenedig o wasanaeth gyda'r un cyflogwr.

(2) Pan fo swm y gwyliau blynyddol a gronnwyd mewn achos penodol yn cynnwys ffracsiwn o ddiwrnod heblaw hanner diwrnod, mae'r ffracsiwn hwnnw—

(a) i'w dalgrynnu i lawr i'r diwrnod cyfan nesaf os yw'n llai na hanner diwrnod, a

(b) i'w dalgrynnu i fyny i'r diwrnod cyfan nesaf os yw'n fwy na hanner diwrnod.